Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Gorchymyn Arfaethedig yn y Cyfrin Gyngor: Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021

Ionawr 2021

## Cyflwyniad

**1.** Gosodwyd Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021[1] ("Y Gorchymyn arfaethedig") gerbron y Senedd gan Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol ("y Cwnsler Cyffredinol") ar 10 Rhagfyr 2020. Daeth Memorandwm Esboniadol gan Lywodraeth Cymru ("y Memorandwm Esboniadol) ochr yn ochr â'r Gorchymyn arfaethedig,[2] ynghyd â Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU.[3]

**2.** Ar 15 Rhagfyr 2021, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 25.7(i), i wahodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ("y Pwyllgor") i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Gorchymyn arfaethedig yn unol â Rheol Sefydlog 25.8. Yn unol â Rheol Sefydlog 25.9, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 14 Ionawr 2021.[4]

---

[1] Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021

[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021, 2021 Rhif [XXXX], 10 Rhagfyr 2020

[3] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021 [Blwyddyn] Rhif [XXXX]

[4] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer trafod Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021, yn unol â Rheol Sefydlog 25.7 (i), Rhagfyr 2020

## Cefndir

### *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*

**3.** Mae adran 109 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ("Deddf 2006"), yn darparu mecanwaith, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, i ddiwygio Atodlen 7A a 7B i Ddeddf 2006. Gall Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wneir o dan adran 109 wella, cyfyngu neu newid cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i basio Deddfau.

**4.** Mae Atodlen 7A i Ddeddf 2006 yn nodi'r materion a gedwir yn ôl gan Senedd y DU na all y Senedd ddeddfu yn eu cylch.

**5.** Mae Atodlen 7B yn nodi cyfyngiadau penodol ar bŵer y Senedd i ddeddfu.

**6.** Er mwyn i fater fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, rhaid iddo (ynghyd â'r amodau eraill a nodir yn adran 108A o Ddeddf 2006) beidio ag ymwneud â mater a gadwyd yn ôl, a rhaid iddo beidio â mynd yn groes i unrhyw un o'r cyfyngiadau yn Atodlen 7B.

**7.** Mae paragraffau 8 i 11 o Atodlen 7B yn cyfyngu ar allu'r Senedd i effeithio ar swyddogaethau awdurdodau a gedwir yn ôl (h.y. awdurdodau cyhoeddus nad ydynt wedi'u datganoli).

**8.** Mae paragraff 8 o Atodlen 7B i Ddeddf 2006 yn darparu na all darpariaeth mewn Deddf y Senedd:

- rhoi unrhyw swyddogaeth i awdurdod a gedwir yn ôl neu osod swyddogaeth o'r fath arno;
- addasu cyfansoddiad awdurdod a gedwir yn ôl, neu
- roi, gosod, addasu neu ddileu swyddogaethau sy'n arferadwy yn benodol mewn perthynas ag awdurdod a gedwir yn ôl, heb gydsyniad Gweinidog y Goron.

**9.** Mae paragraff 9 o Atodlen 7B yn cynnwys eithriadau (y cyfeirir atynt yn aml fel materion a gymerwyd allan) i baragraff 8. Er enghraifft, nid yw paragraff 8 yn berthnasol i roi neu osod swyddogaethau ar y Comisiwn Etholiadol neu'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

**10.** Mae paragraff 10 yn darparu na all darpariaeth Deddf y Senedd ddileu nac addasu unrhyw un o swyddogaethau awdurdod cyhoeddus (ac eithrio awdurdod Cymreig datganoledig), heb gydsyniad Gweinidog y Goron. Mae paragraff 10 hefyd yn cynnwys eithriadau; er enghraifft, nid yw paragraff 10 yn berthnasol i ddileu neu

addasu swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol neu'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Nid yw paragraff 10 yn berthnasol ychwaith i ddileu neu addasu swyddogaethau Gweinidog y Goron.

**11.** Fodd bynnag, mae paragraff 11 yn nodi cyfyngiad ar wahân ar ddileu neu addasu swyddogaethau Gweinidog y Goron. Mae paragraff 11 yn nodi rhestr o swyddogaethau Gweinidog y Goron na all y Senedd eu dileu neu eu haddasu heb gydsyniad Gweinidog y Goron. Mae'r rhestr yn cynnwys “swyddogaethau datganoledig cymwys”, sy'n cynnwys swyddogaethau cydredol, h.y. swyddogaethau y gall Gweinidogion Cymru a Gweinidog y Goron eu harfer ar sail gydredol.

**12.** Cyn i'r broses o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ddechrau, cymharol ychydig o sylw a roddwyd i’r cyfyngiad ar ddileu neu addasu swyddogaethau cydredol o'r fath. Fodd bynnag, mae’r broses o ymadael â’r Undeb Ewropeaidd wedi creu llawer o swyddogaethau cydredol newydd. O ganlyniad, dechreuom roi sylw cynyddol iddynt, yn enwedig eu heffaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**13.** Mae Rheol Sefydlog 25[5] yn nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid ei dilyn mewn perthynas â thrafod Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor sydd i'w gwneud o dan adran 109 o Ddeddf 2006.

**14.** Ar ôl ystyried Gorchymyn arfaethedig yn unol â Rheolau Sefydlog 25.7 i 25.11, caiff Llywodraeth Cymru gyflwyno Gorchymyn drafft i'w gymeradwyo gan y Senedd.

**15.** Gwneir Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gan Ei Mawrhydi y Frenhines, sy’n gweithredu ar gyngor y Cyfrin Gyngor, ond dim ond os yw'r Gorchymyn drafft wedi'i gymeradwyo gan y Senedd, Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.

## Rheol Sefydlog 30C - Hysbysu mewn perthynas ag Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 na chânt eu gosod gerbron y Senedd.

**16.** Mae Rheol Sefydlog 30C yn rhoi proses hysbysu ar waith drwy ddatganiadau ysgrifenedig mewn perthynas ag offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd*

[5] Senedd Cymru, Busnes y Senedd, Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Tachwedd 2020

*(Ymadael) 2018* ("Deddf 2018"). Fe'i cyflwynwyd mewn ymateb i'n hadroddiad ar graffu ar reoliadau sy'n codi o dan Ddeddf 2018.[6]

**17.** Mewn adroddiad cynnydd dilynol ar ein gwaith craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf 2018, gwnaethom dynnu sylw at bryderon a materion sy'n codi o'r datganiadau ysgrifenedig a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i ofynion Rheol Sefydlog 30C.[7] Roedd y rhain yn cynnwys lleihau cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn sgil creu swyddogaethau datganoledig cymwys newydd, ar ffurf "swyddogaethau cydredol" a "swyddogaethau cydredol plws".

**18.** Swyddogaeth gydredol yw swyddogaeth y gellir ei defnyddio mewn perthynas â Chymru gan Weinidogion Cymru a Gweinidog y Goron yn annibynnol ar ei gilydd h.y. rhoddir yr un pŵer iddynt ill dau.

**19.** Mae swyddogaeth gydredol plws yn fath o swyddogaeth gydredol. Gellir ei defnyddio mewn perthynas â Chymru gan Weinidogion Cymru a Gweinidog y Goron yn annibynnol ar ei gilydd. Fodd bynnag, mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn y gall Gweinidog y Goron ddefnyddio'r pŵer.

**20.** O dan Atodlen 7B i Ddeddf 2006, ni chaiff y Senedd ddileu nac addasu ochr Gweinidogion y DU o swyddogaeth gydredol heb gydsyniad Gweinidog y Goron. Felly, po fwyaf o swyddogaethau cydredol sy'n cael eu creu, y mwyaf o bethau sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (oherwydd ni all y Senedd addasu na dileu ochr Gweinidog y Goron o'r swyddogaethau cydredol hynny).

**21.** Gall y Senedd, wrth gwrs, ddileu neu addasu ochr Gweinidogion Cymru o swyddogaeth gydredol, heb fod angen cydsyniad.

**22.** Mae datganiadau ysgrifenedig a osodwyd gan Weinidogion Cymru o dan Reol Sefydlog 30C wedi dweud dro ar ôl tro y bydd Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wneir o dan adran 109 o Ddeddf 2006 yn mynd i'r afael â'r effaith negyddol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a achosir yn sgil creu swyddogaethau cydredol newydd.

---

[6] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Craffu ar y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: materion gweithredol,, Gorffennaf 2018. Mae gwybodaeth am ddatganiadau Rheol Sefydlog 30C ar gael ar ein gwefan.

[7] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Craffu ar y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: Adroddiad cynnydd, Chwefror 2019. Gweler hefyd ohebiaeth rhwng y Pwyllgor a Llywodraeth Cymru ar 6 Chwefror 2019, 11 Mawrth 2019 a 25 Mawrth 2019, yn ogystal â 7 Chwefror 2019, 21 Chwefror 2019 a 27 Mawrth 2019

## Y Gorchymyn arfaethedig

**23.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y Gorchymyn arfaethedig yn:

- cywiro nifer o ddiffygion yn Atodlenni 7A a 7B i Ddeddf 2006 sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd;
- cywiro gwallau drafftio a fewnosodwyd i Ddeddf 2006 gan *Ddeddf Cymru 2017;*
- darparu eithriad o'r gofynion cydsyniad yn Atodlen 7B mewn perthynas â swyddogaethau cydredol a chydredol plws a grëwyd gan ddeddfwriaeth ymadael â'r UE a *Deddf y Coronafeirws 2020*.[8]

**24.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

> "The carve outs from consent requirements negate the potential restrictions on competence that would have arisen as a result of the number of concurrent and concurrent plus functions that were created in consequence of the EU Exit SI programme, EU Exit Bills and the Coronavirus Act 2020."[9]

**25.** Mae erthyglau 4(5) a 6(3) o'r Gorchymyn arfaethedig yn dileu'r gofyniad i'r Senedd gael cydsyniad Gweinidog y Goron mewn perthynas â:

(a) dileu ochr Gweinidog y Goron o swyddogaethau cydredol penodedig,

(b) dileu swyddogaeth Gweinidogion Cymru o roi cydsyniad i Weinidog y Goron mewn perthynas â swyddogaethau cydredol penodedig,

(c) dileu swyddogaeth Gweinidog y Goron o roi cydsyniad i Weinidogion Cymru mewn perthynas â swyddogaethau cydredol penodedig.

**26.** O ran paragraff 25(a) a (b), y swyddogaethau cydredol penodedig yw:

- y rhai a grëwyd gan reoliadau a wnaed o dan *Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018* (ond nid y swyddogaethau cydredol sydd wedi eu cynnwys yn Neddf 2018 ei hun);

[8] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 2

[9] Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 4

- y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Deddfau a ganlyn, gan gynnwys rheoliadau a wneir odanynt:
  - *Deddf yr UE (Y Cytundeb Ymadael) 2020,*
  - *Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020,*
  - *Deddf y Coronafeirws 2020,*
  - *Deddf Amaethyddiaeth 2020,*
  - *Deddf Pysgodfeydd 2020*, a
  - Deddf Senedd y DU sy'n deillio o'r Bil Masnach.

**27.** O ran paragraff 25(c), y swyddogaethau penodedig yw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Deddfau a ganlyn, gan gynnwys rheoliadau a wneir odanynt:

- *Deddf yr UE (Y Cytundeb Ymadael) 2020,*
- *Deddf Pysgodfeydd 2020*, a
- Deddf Senedd y DU sy'n deillio o'r Bil Masnach.

**28.** Mae'r eithriadau hyn ddim ond yn berthnasol pan fo'r Senedd yn dymuno **dileu**'r swyddogaethau hynny a nodir ym mharagraff 25(a), (b) ac (c) uchod. Os yw'r Senedd yn dymuno **addasu'r** swyddogaethau hynny, yna bydd y gofynion cydsyniad yn parhau i fod yn berthnasol (gweler hefyd baragraff 32 isod).

## Tystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol

**29.** Cawsom dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol ar 14 Rhagfyr 2020.[10]

### Trosolwg

**30.** Esboniodd y Cwnsler Cyffredinol gefndir y Gorchymyn arfaethedig:

> "The Order started, really, as a means of amending Schedule 7A to the Government of Wales Act 2006, so that a range of references in the Schedule, which would become redundant effectively as a

[10] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (DCC), Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2020

> consequence of leaving the European Union, were cleaned up, effectively … But then it became clear that it could also be used to solve a challenge that we identified as part of that process of legislating to leave the European Union, which is that, as a consequence of creating concurrent and concurrent plus functions between Welsh Ministers and UK Government Ministers, we identified a risk, given a feature of our devolution settlement here in Wales, that it might require Minister of the Crown consent in the future when the Senedd was legislating in the areas covered by that EU legislation. So, we took the opportunity of that pre-existing section 109 Order, if you like, to solve that question."[11]

**31.** Nododd hefyd fod y materion penodol ynghylch swyddogaethau cydredol yn codi o ganlyniad i setliad cyfansoddiadol Cymru, ac nad ydynt yn codi yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dywedodd:

> "The reason the issue arises in our constitutional settlement in Wales—it doesn't exist in Scotland and Northern Ireland—is the requirement of this Minister of the Crown consent… the judgment at the time of the … the Government of Wales Act … was that because there were so few examples of these issues, and we expected that they would decline over time, that it wasn't felt to be an especially significant issue, if I can put it in those terms. But, as a consequence of, I suppose, an unexpected development in terms of legislating to leave the European Union, it became clear, in that context, that providing concurrent functions to map the complex range of powers and obligations that Ministers have right across the UK was sometimes the most effective way of doing that.
>
> … So, from my own point of view as Counsel General, I was and continue to be copied into all the ministerial advice to portfolio holders where this issue arises, so that I can give my view as to whether it's an appropriate way of dealing with the transfer of functions in that particular context. The criteria that I have in mind are, really, is there any other way of doing it, and if I was satisfied that there isn't, the question then is, is this concurrent function issue also being solved, as it were, by the section 109 Order that we have in front of us today? So,

[11]Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [5], 14 Rhagfyr 2020

> those tests are the ones that I apply to looking at any of that advice, effectively."[12]

**32.** Nododd y Cwnsler Cyffredinol hefyd oblygiadau'r gwahaniaeth rhwng dileu ac addasu swyddogaethau o ran cydsyniad:

> "… there is a body of consent requirements where we can essentially say, 'If the powers are to be removed in future, then that, obviously, doesn't impose new, as it were, burdens on the relevant authority. But if you're modifying or creating a new one, that remains within the framework of the original intention in the Wales Act 2017.' So, it's an acknowledgement that that's the underpinning framework, if you like, rather than a particular choice.
>
> What I would say, though, is that in the negotiation, I suppose, around the modification of function, which would require consent from UK Ministers, then, plainly, the fact that the Senedd could simply remove that function is, as it were, leverage in that discussion, isn't it? It's a fallback that will obviously provide some context in the negotiation itself, if you like."[13]

## Materion penodol

**33.** Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd yn fodlon ar y rhestr o ddeddfiadau ym mharagraffau 9(8), 9(9), 11(6) ac 11(7) newydd o Atodlen 7B i Ddeddf 2006 (fel y'u mewnosodwyd gan erthyglau 4(5) a 6(3) o'r Gorchymyn arfaethedig) ac felly nifer yr eithriadau sy'n caniatáu i'r Senedd ddileu swyddogaethau cydredol heb gydsyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mewn ymateb, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> "Ydw, yn gyffredinol. Mae cwmpas yr Order yn ehangach nag oedd e ar y cychwyn. Roedd y carve-out cyntaf jest yng nghyd-destun deddfwriaeth i adael yr Undeb Ewropeaidd, ac yn benodol, ar y cychwyn o leiaf, roedd hynny'n ddeddfwriaeth eilaidd. Mae wedi, wrth gwrs, ehangu y tu hwnt i hynny yn fwy diweddar. Felly, rwy'n credu bod

[12] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [8], 14 Rhagfyr 2020

[13] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [12-13], 14 Rhagfyr 2020

> y rhestr yna'n dangos beth yw'r ddeddfwriaeth sy'n cynnwys y concurrent and concurrent plus functions."[14]

**34.** Esboniodd swyddog a oedd gyda'r Cwnsler Cyffredinol bod angen i'r paragraffau newydd sy'n cael eu drafftio i ddarparu eithriadau adlewyrchu'r rhwystrau perthnasol ar arfer swyddogaethau gan Weinidogion Cymru.[15]

**35.** Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a fyddai wedi bod yn well ganddo pe bai'r Gorchymyn arfaethedig yn cael ei ddiogelu at y dyfodol, er mwyn eithrio swyddogaethau cydredol a grëir gan holl ddarpar ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig. Mewn ymateb, dywedodd fod y Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys "elfen o edrych i'r dyfodol o fewn yr elfen sy'n delio gyda rheoliadau'n benodol" a nododd hefyd fod cyfle i Lywodraeth Cymru a'r Senedd ystyried y mater yn y dyfodol drwy'r broses gydsyniad deddfwriaethol.[16]

**36.** Nid yw'r eithriadau a ddarperir ym mharagraffau 9(8), 9(9), 11(6) ac 11(7) o Atodlen 7B i Ddeddf 2006 gan y Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys swyddogaethau Gweinidogion y DU mewn perthynas â rheoleiddio cychod pysgota o Brydain ym mharth Cymru, sy'n golygu na fydd y Senedd yn gallu dileu ochr Gweinidogion y DU o unrhyw swyddogaeth gydredol yn y maes hwn heb gydsyniad Llywodraeth y DU. Pan gafodd ei holi am hyn, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> "…. mae'r newidiadau yn y Gorchymyn yn adlewyrchu'r negodiadau am beth yw'r Ddeddf pysgodfeydd nawr … dwi'n credu bod pobl yn derbyn yn gyffredinol ei fod e'n faes eithaf cymhleth a lletchwith y bydd angen dod nôl ato fe pan fydd gan Lywodraethau a deddfwrfeydd ychydig efallai fwy o amser ar ôl y cyfnod hwn.
>
> Ond beth mae hyn yn golygu yw bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol swyddogaethau sydd yn parhau ynglŷn â chychod pysgota Prydeinig, oni bai rhai Cymreig, yn nyfroedd y zone Gymreig, hynny yw, oherwydd bod hwnnw'n adlewyrchu'r trefniant rhwng y pedair gwlad cyn hynny. Felly, mae gan hwn fwy i'w wneud gyda'r broses o gael trefn ar y ddeddfwriaeth pysgodfeydd nag â'r materion eraill sydd yn y Gorchymyn.[17]

---

[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [19], 14 Rhagfyr 2020

[15] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [22], 14 Rhagfyr 2020

[16] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [24], 14 Rhagfyr 2020

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [27], 14 Rhagfyr 2020

**37.** Gwnaethom ysgrifennu at Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynglŷn â'r pwynt hwn ar 13 Tachwedd 2020.[18] Yn ei hymateb ar 16 Rhagfyr 2020 dywedodd y canlynol:

> "Mae Deddf Pysgodfeydd 2020 ac Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE yn cynnwys pwerau cydredol. Mae Llywodraeth y DU yn cyflwyno Gorchymyn adran 109 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru i ddarparu eithriad rhag y gofynion cydsynio ym mharagraffau 8 ac 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru..
>
> Mae'r eithriad hwn yn ceisio sicrhau na fydd angen cydsyniad Gweinidog y Goron pan fydd y Senedd yn deddfu i ddileu swyddogaethau cydredol mewn deddfiadau penodedig, gan gynnwys Deddf Pysgodfeydd 2020 ac Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE sy'n ymwneud â Physgodfeydd. Fodd bynnag, mae'r eithriad arfaethedig yn ddarostyngedig i rai eithriadau penodol iawn mewn perthynas â rheoleiddio cychod pysgota.
>
> … Mae'r eithriadau'n diogelu swyddogaethau presennol yr Ysgrifennydd Gwladol i reoleiddio cychod pysgota Prydeinig, ar wahân i gychod pysgota Cymru, ym mharth Cymru. Rydym yn cydnabod bod swyddogaethau o'r fath yn nodwedd unigryw o'r trefniadau i ddatganoli pysgodfeydd yn y DU a bod y sail resymegol sy'n cael ei rhoi dros yr eithriad hwn yn gyson â'r trefniadau presennol ar gyfer datganoli pwerau gweithredol a deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â physgodfeydd ac sydd eisoes yn eu lle ar draws y llyfr statud ehangach ar gyfer pysgodfeydd."[19]

**38.** Roedd Bil yr Amgylchedd Llywodraeth y DU yn cynnwys pwerau cydredol plws. Nododd ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyfatebol Llywodraeth Cymru[20] fod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cyfeirio at ymrwymiad gweinidogol Llywodraeth y DU i eithrio'r pwerau cydredol plws hyn o Atodlen 7B i Ddeddf 2006. Pan y gwnaethom ofyn pam nad oedd Gorchymyn arfaethedig yn ymdrin â Bil yr Amgylchedd, nododd y Cwnsler

---

[18]Llythyr at Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Bil Pysgodfeydd y DU, 13 Tachwedd 2020

[19] Llythyr gan Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 16 Rhagfyr 2020

[20] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd, Gorffennaf 2020

Cyffredinol, yn wahanol i'r Bil Masnach, nad oedd Bil yr Amgylchedd wedi dod at ddiwedd ei gyfnod craffu yn Senedd y DU ac 'nad yw'r Bil wedi setlo'n ddigonol i berswadio'r Llywodraeth ei bod yn briodol ei restru' yn y Gorchymyn arfaethedig (sy'n wir am y Bil Masnach).[21] Ychwanegodd:

> "However, what that also means is, because the Bill is still in progress, if you like, there is also an opportunity to put the actual carve-outs on the face of the Bill, so in that sense it can be dealt with through the Bill itself rather than the Order that's intended to tackle this issue otherwise."[22]

### Yr angen am Orchmynion pellach yn y Cyfrin Gyngor

**39.** Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a fyddai angen unrhyw Orchmynion pellach yn y Cyfrin Gyngor mewn perthynas ag ymadael â'r UE neu fel arall. Ei ateb oedd:

> "My best judgment, Chair, as of today, is that the transition period would generate the need for another Order in Council. As we've discussed today, actually, a number of Members have raised points that are germane to the broader constitutional settlement, obviously, and so in that sense, there's a series of ongoing reflections at our end around that. But there isn't any live discussion, if you like, that would lead to an Order in Council. We certainly wouldn't rule that out in the future for obvious reasons, but there isn't anything that is current at the moment."[23]

## Ein barn ni

**40.** Rydym yn croesawu'r ffaith ein bod ni wedi cael cyfle i graffu ar y Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig, o ystyried nid yn unig ei bwysigrwydd cyfansoddiadol, ond hefyd yr amser cyfyngedig sydd ar gael.

**41.** Rydym yn nodi y bwriadwyd yn wreiddiol i'r Gorchymyn arfaethedig gywiro, yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*, diffygion o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE a gwallau drafftio.

---

[21] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [31], 14 Rhagfyr 2020

[22] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [31], 14 Rhagfyr 2020

[23] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [50], 14 Rhagfyr 2020

**42.** Nodwn hefyd fod y Gorchymyn arfaethedig bellach yn cael ei ddefnyddio i ddileu cyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae bron yr holl gyfyngiadau hyn wedi codi o ganlyniad i ymagwedd Llywodraeth Cymru at ganiatáu i Lywodraeth y DU ddeddfu mewn meysydd datganoledig i gywiro'r llyfr statud o ganlyniad i ymadael â’r UE (sefyllfa yr ydym wedi bod yn tynnu sylw ati yn ein gwaith craffu ar ddatganiadau ysgrifenedig Rheol Sefydlog 30C).

**Casgliad 1.** Er ein bod wedi mynegi pryderon ynghylch dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar Lywodraeth y DU i ddeddfu ar ei rhan, rydym yn croesawu dileu’r cyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Casgliad 2.** Gobeithiwn, yn y Chweched Senedd, pe bai angen gwneud cywiriadau pellach i'r llyfr statud o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE, y bydd Llywodraeth Cymru yn deddfu i wneud y cywiriadau hyn ei hun.

**43.** Rydym yn nodi cadarnhad y Cwnsler Cyffredinol nad yw'r Gorchymyn arfaethedig yn mynd i'r afael â'r problemau a achosir yn sgil cynnwys pwerau cydredol plws ym Mil Amgylchedd Llywodraeth y DU a bod yna gyfle o hyd i gywiro’r sefyllfa drwy ychwanegu eithriadau ar wyneb y Bil.[24] Byddwn yn monitro'r sefyllfa hon drwy ein gwaith craffu ar Femoranda Cydsyniad Atodol Llywodraeth Cymru ar y Bil hwnnw.

**44.** Rydym hefyd yn nodi sylw’r Cwnsler Cyffredinol y byddai'r ‘cyfnod pontio yn arwain at yr angen am Orchymyn arall yn y Cyfrin Gyngor’. Yn ein barn ni, mae angen eglurder pellach ynglŷn â’r pwynt hwn, o gofio ein bod bellach wedi pasio'r cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020, a elwir yn gyffredinol fel 'y cyfnod pontio'.

**Argymhelliad 1**. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol egluro ei sylwadau ynghylch yr angen am Orchymyn pellach yn y Cyfrin Gyngor o ganlyniad i'r cyfnod pontio.

**45.** Byddem yn croesawu gweithredu parhaus gan y Cwnsler Cyffredinol i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am ddatblygiadau sy’n ymwneud â swyddogaethau cydredol a chydredol plws; er enghraifft, mewn perthynas â rheoleiddio cychod pysgota o Brydain ym mharth Cymru fel y cyfeiriwyd ato gan y Cwnsler Cyffredinol yn ei dystiolaeth (gweler paragraff 36).

**Argymhelliad 2:** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygiadau yn ymwneud â swyddogaethau cydredol a

[24] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [31], 14 Rhagfyr 2020

chydredol plws sydd wedi codi neu sy’n codi yn y dyfodol o ganlyniad i ddeddfwriaeth y DU.